OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 No. 1988

Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011

Parhad trwydded, gwneud cais am drwydded a thelerau trwydded

8.—(1) Rhaid i berson sy'n pysgota am bysgod cregyn penodedig, neu sy'n cymryd pysgod cregyn penodedig, o fewn yr ardal benodedig, gyflwyno manylion o'i ddaliadau i Weinidogion Cymru ar, neu cyn, y pumed diwrnod o'r mis calendr sy'n dilyn y mis y bu'n pysgota am y pysgod cregyn hynny neu'n eu cymryd.

(2) Rhaid i fanylion daliadau, at ddibenion paragraff (1), gofnodi—

(a) dyddiad pob daliad o bysgod cregyn penodedig;

(b) cyfanswm pwysau byw yr holl gocos a gymerwyd ar y dyddiad hwnnw;

(c) cyfanswm pwysau byw yr holl gregyn gleision a gymerwyd ar y dyddiad hwnnw;

(ch) y lleoliad y cymerwyd y pysgod cregyn penodedig ohono; a

(d) pa bynnag wybodaeth bellach a fynnir gan Weinidogion Cymru ac yr hysbysir y deiliad trwydded ohoni o bryd i'w gilydd.